




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Iaith fyw: iaith byw

Strategaeth y Gymraeg 2012–17

Cynllun Gweithredu 2016–17



CYMRAG

Byw Dysgu Mwynhau

laith fyw: iaith byw

Strategaeth y Gymraeg 2012–17

Cynllun Gweithredu 2016–17

- Cynulleidfa** Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartion eraill â diddordeb.
- Trosolwg** Dyma gynllun gweithredu Gweinidogion Cymru ar gyfer 2016–17 a baratowyd yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n esbonio sut y byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn eu strategaeth, *laith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–2017* (Llywodraeth Cymru, 2012), yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r cynllun gweithredu yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'r Strategaeth a nodwyd yn y datganiad polisi *laith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen*, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2014.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Uned y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3890
e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/yygymraeg
- Dogfennau cysylltiedig** *laith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); *Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2013); *laith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen* (Llywodraeth Cymru 2014)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Y pwyntiau gweithredu	3
Y Gymraeg a'r economi	3
Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg	6
Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	10
Newid ymddygiad ieithyddol	14
Dangosyddion	16
Dangosyddion cyffredinol	16
Dangosyddion ar gyfer pob maes strategol	16

Cyflwyniad

Ar 1 Mawrth 2012, cyhoeddwyd Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg, *laith fyw: iaith byw*. Daeth i rym ar 1 Ebrill 2012 fel strategaeth bum mlynedd, a bydd yn weithredol tan 31 Mawrth 2017.

Mae Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol yn esbonio sut y byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn y strategaeth yn ystod pob blwyddyn ariannol. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer 2016-17.

Ym mis Awst 2014, cyhoeddwyd datganiad polisi *laith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen* (a elwir yn *Bwrw mlaen* yn y ddogfen hon) sy'n amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymraeg wrth weithredu'r strategaeth dros y tair mlynedd hyd ddiwedd cyfnod y strategaeth. Mae'r cynllun gweithredu hwn felly yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hynny, ac mae'r pwyntiau gweithredu wedi eu nodi o dan benawdau pedair thema *Bwrw mlaen* sef:

1. Y Gymraeg a'r economi
2. Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg
3. Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
4. Newid ymddygiad ieithyddol.

Hwn fydd y cynllun gweithredu terfynol i gyd-fynd a Strategaeth y Gymraeg: *laith fyw: iaith byw 2012-2017*.

Yn ystod 2016-17, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i rhanddeiliaid i bennu'r cyfeiriad ar gyfer strategaeth iaith Gymraeg tymor hir.

Y pwyntiau gweithredu

Y Gymraeg a'r economi

Mae'r pwyntiau gweithredu yn yr adran hon yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu'r amgylchedd gorau posibl er mwyn meithrin twf y Gymraeg a datblygiad economaidd wrth i'r naill hybu'r llall. Mae *Bwrw mlaen* yn cydnabod bod twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a lles y Gymraeg yn mynd law yn llaw â'i gilydd, a bydd yn ysgogiad i helpu busnesau i fanteisio ar y gydberthynas hon. Rydym am i fwy o fusnesau weithredu'n ddwyieithog ac adnabod gwerth y Gymraeg. Mae yna hefyd bwynt gweithredu ynghylch sut rydym am barhau i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr economi ddigidol.

	Maes strategol laith fyw: iaith byw	Ymrwymiad <i>Bwrw mlaen</i> (2014)	Yn ystod 2016-17 byddwn yn ymgymryd â'r canlynol.
1.	3. Y gymuned 4. Y gweithle 5. Gwasanaethau Cymraeg	<p>Buddsoddi hyd at £400,000 mewn prosiectau penodol ym meysydd cymorth i fusnesau, ymchwil, marchnata a llywodraethu er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu prosiect peilot i roi prawf ar ddull o wella sut caiff gwasanaethau busnes eu darparu yn Nyffryn Teifi, gan gynnwys Cymorthfeydd Busnes Cymraeg a Chronfa i Gefnogi Busnesau Bach a Chanolig Cymraeg • comisiynu ymchwil i ddeall yn well yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag defnyddio gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli eisoes; a sut gellid gwneud gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli ac a ddatblygir yn y dyfodol yn fwy hwylus i fusnesau eu defnyddio 	<p>Sefydlu grŵp trawsadrannol gan wahodd partneriaid allanol i fapio'r maes cefnogaeth i fusnesau ddefnyddio'r Gymraeg yn seiliedig ar ganfyddiadau gwaith Dyffryn Teifi ac ehangach, gan anelu at;</p> <ul style="list-style-type: none"> - cyhoeddi pecyn cymorth i fusnesau ar ddefnydd y Gymraeg mewn Busnes - Datblygu cwrs hyfforddiant ar lein i fusnesau ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn Busnes trwy ddarpariaeth BOSS - Cynnig hyfforddiant mewn swydd i holl Ymgynghorwyr Busnes Cymru ar ymwybyddiaeth iaith a hyrwyddo manteision y Gymraeg mewn busnes - Comisiynu ymchwil ar effaith defnyddio'r Gymraeg mewn busnes - Yn seiliedig ar yr uchod, cynnal

		<ul style="list-style-type: none"> • codi ymwybyddiaeth i berswadio busnesau ynghylch manteision y Gymraeg, a gwneud mwy i farchnata manteision gweithredu'n ddwyieithog, gan gynnwys parhau i gynnal digwyddiadau rhwydweithio i fusnesau; a diwygio ymgyrch farchnata Busnes Cymru • adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth grwpiau cynghori sy'n ffocysu'n bennaf i'r economi er mwyn sicrhau fod y Gymraeg a'u buddion yn ystyriaeth yn ystod eu trafodaethau. 	<p>digwyddiadau busnes i hyrwyddo manteision y Gymraeg mewn busnes</p> <ul style="list-style-type: none"> - Parhau i hwyluso mynediad at wasanaethau cymorth Cymraeg gan Busnes Cymru yn seiliedig ar ymchwil. - Sgopio posibilrwydd o sefydlu llinell gymorth y Gymraeg mewn busnes - Datblygu templed asesiadau risg y Gymraeg ar gyfer datblygiadau economaidd mawr
2.	4. Y gweithle 5. Gwasanaethau Cymraeg	Sicrhau bod gwell alinio rhwng y Gymraeg a rhaglenni hyrwyddo sgiliau Llywodraeth Cymru, ac ysgogi hyfforddiant a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg a hyfforddiant i ddysgu Cymraeg.	<p>Cydweithio â rheolwyr rhaglenni sgiliau Llywodraeth Cymru a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant Cymraeg yn cael eu darparu a'u hyrwyddo o fewn y rhaglenni.</p> <p>Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth o fewn gwerthusiadau rhaglenni sgiliau a sicrhau bod y canfyddiadau yn cyfrannu at weithredu'r rhaglenni cyfredol.</p>
3.	3. Y gymuned 4. Y gweithle 5. Gwasanaethau Cymraeg	Ystyried datblygu cymorth i fusnesau i hwyluso datblygiad economaidd yn y bröydd Cymraeg, ar sail y gwersi y byddwn yn eu dysgu o brosiect Dyffryn Teifi.	Dysgu gwersi o brosiect Dyffryn Teifi a gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau amrywiol o fewn yr ardaloedd hyn i ddatblygu'n bellach o 2016–17 ymlaen.

4.	5. Gwasanaethau Cymraeg 6. Y seilwaith	Cydweithio â sefydliadau masnachol a chyrrff academaidd i hwyluso'r gwaith o ddatblygu adnoddau iaith digidol newydd, fel geiriaduron, adnoddau dadansoddi testun, technolegau lleferydd ac adnoddau cyfieithu sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.	Lobio a gweithio gyda chysylltiadau rhyngwladol perthnasol i annog a chefnogi corfforaethau rhyngwladol i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill llai eu defnydd wrth ddatblygu cynnyrch newydd. Buddsoddi mewn prosiectau seilwaith ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg.
----	---	--	--

Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg

Mae'r pwyntiau gweithredu yn yr adran hon yn ymwneud â'r her ar gyfer sicrhau lle mwy amlwg i'r Gymraeg o fewn agenda Llywodraeth Cymru ac agendâu awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill. Bydd gweithredu darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwbl allweddol ar gyfer cyflawni'r newid sylweddol hwn, gan adeiladu ar y cynllunio strategol sydd eisoes yn digwydd yn y maes addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd pontio'r bwll rhwng addysg a'r gweithlu drwy gynnwys y Gymraeg yn ein rhaglenni sgiliau hefyd yn bwysig iawn.

	Maes strategol <i>iaith fyw: iaith byw</i>	Ymrwymiad <i>Bwrw mlaen (2014)</i>	Yn ystod 2016-17 byddwn yn ymgymryd â'r canlynol.
5.	3. Y gymuned	Sefydlu cronfa buddsoddi gwerth £1.25 miliwn* a fydd wedi'i thargedu'n benodol at gefnogi datblygiad canolfannau a/neu ofodau dysgu all hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg neu drochi'r Gymraeg drwy gystadleuaeth a fydd yn cynhyrchu syniadau ac egni newydd. * Ers cyhoeddi <i>Bwrw Mlaen</i> cyhoeddwyd cronfa ychwanegol o £1 miliwn ar gyfer 2015–16. Mae'r gronfa bellach wedi cau.	Monitro cynnydd y prosiectau a dderbyniodd grantiau o dan y cynllun cyfalaf, gan gynnwys derbyn adroddiadau gan y canolfannau a ariannwyd gan rownd gyntaf y grant erbyn mis Awst 2016. Hwyluso rhwydwaith o'r canolfannau er mwyn rhannu arfer da, a parhau i annog ein partneriaid sy'n hybu'r Gymraeg yn y gymuned gydweithio gyda'r canolfannau.
6.	Pob maes strategol	Sicrhau bod iaith Gymraeg sy'n ffynnu wrth wraidd Cymru gynaliadwy drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.	Gweithredu darpariaethau'r Ddeddf.
7.	5. Gwasanaethau Cymraeg	Parhau â'r broses o lunio rheoliadau ar gyfer creu safonau'r Gymraeg a fydd yn benodol gymwys i sefydliadau, gan ddechrau gyda Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol.	Parhau â'r gwaith o lunio Rheoliadau i wneud safonau yn benodol gymwys i gyrrff. Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud yn berthnasol i sefydliadau yn unol â blaenoriaethau Comisiynydd y Gymraeg.

8.	Pob maes strategol	Cryfhau strwythurau cymorth Llywodraeth Cymru er mwyn hwyluso'r gwaith o brif ffrydio'r iaith ar draws pob adran.	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu Safonau'r Gymraeg o 30 Mawrth 2016, a fydd yn disodli'r Cynllun Iaith Gymraeg statudol. Mae'r Safonau yn darparu set cliriach o ofynion ar Lywodraeth Cymru o safbwynt darparu gwasanaethau i'r cyhoedd heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg, ar ystyried impact ein penderfyniadau polisi ar ddefnydd y Gymraeg, ac ar hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn y sefydliad. Bydd 2016-17 yn gyfnod o weithredu'r gweithdrefnau a'r paratodau a wnaethpwyd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion y Safonau. Byddwn yn parhau i gofnodi ein cydymffurfedd gyda'r Safonau Llundain Polisi o safbwynt prif ffrydio'r Gymraeg ar draws pob adran, drwy gyfrwng asesiadau impact y Gymraeg sydd yn casglu tystiolaeth o'n hasesiad polisi a chyllid o effaith ein penderfyniadau ar y Gymraeg.
9.	3. Y gymuned 5. Gwasanaethau Cymraeg	Cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r camau y disgwyliwn iddynt eu cymryd i hybu'r Gymraeg.	Parhau i gydweithio gydag awdurdodau lleol yn ôl y galw ar gynlluniau i hybu'r Gymraeg yn lleol. Cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i godi statws y Gymraeg ar agendâu awdurdodau lleol.
10.	3. Y gymuned	Parhau i bwysu a mesur pob cam ymarferol ar gyfer atgyfnerthu'r Gymraeg o fewn y system gynllunio.	Gweithredu darpariaethau Deddf Cynllunio 2015 drwy gefnogi a chydweithio ag awdurdodau cynllunio lleol, a chwblhau gwelliannau i Nodyn Cyngor Technegol 20 (TAN 20): Cynllunio a'r

			Gymraeg.
11.	2. Plant a phobl ifanc	Parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn cynllunio'r modd y maent yn darparu ar gyfer y Gymraeg o fewn y system addysg.	Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau) ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 drwy gymeradwyo neu fel arall gynlluniau tair blynedd a'r cynlluniau diwygiedig blynyddol a'r adroddiad ar gynnydd o ran gweithredu a chyflawni targedau i gynyddu canran plant saith oed a phedair ar ddeg oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gryfhau'r broses gynllunio ar gyfer darpariaeth statudol cyfrwng Cymraeg, cynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a'u gweithrediad. Lle bo'n berthnasol, bydd hyn yn cyd-fynd ag argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
12.	2. Plant a phobl ifanc	Gwella'r dull o ddarparu pwyntiau mynediad hwyr i addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog ar draws Cymru.	Drwy eu CSGAau gofynnir i awdurdodau lleol osod allan sut maent yn hwyluso mynediad hwyr i addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cyflawni targedau perthnasol.
13.	2. Plant a phobl ifanc	Gwella'r modd y caiff darpariaeth Gymraeg ei chynllunio mewn addysg a gofal plant cyn ysgol.	Drwy eu CSGAau gofynnir i awdurdodau lleol osod allan sut maent yn cynyddu darpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir drwy Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, darpariaeth Dechrau'n Deg ac arolygon i fesur y galw a

			<p>gosod targedau ar gyfer twf a gaiff eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol cyllidir Mudiad Meithrin i gyfrannu ar wella cynllunio a darpariaeth ac ehangu darpariaeth ac ystyried modelau gweithredu eraill. Byddwn yn datblygu cynllun ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sectorau gofal plant a blynyddoedd cynnar.</p>
--	--	--	--

Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Mae'r pwyntiau gweithredu yn yr adran hon yn adeiladu ar weithgareddau presennol sy'n anelu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi cyllid refeniw gan roi blaenoriaeth i'r ardaloedd lle y ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg ac i ardaloedd eraill sydd o bwysigrwydd strategol. Mae rôl bwysig gan y Mentrau Iaith i hybu'r Gymraeg yn y gymuned ac rydym am weld cysondeb yn y ddarpariaeth. Mae angen i ni gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg drwy'r system addysg a'r system hyfforddi er mwyn ategu'r gwaith hwn. Yr her yw troi'r dysgwyr hyn yn siaradwyr.

	Maes strategol iaith fyw: iaith byw	Ymrwymiad <i>Bwrw mlaen</i> (2014)	Yn ystod 2016-17 byddwn yn ymgymryd â'r canlynol.
14.	2. Plant a phobl ifanc 3. Y gymuned	<p>Buddsoddi £1.2 miliwn* yn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf (2014-16) (a fydd yn cynnwys £750,000 ar gyfer y Mentrau Iaith) er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • creu cronfa gwerth £300,000 y flwyddyn i hybu arloesi yn yr ardaloedd lle y ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg ac ardaloedd eraill sydd o bwysigrwydd strategol • datblygu gwaith ein partneriaid sy'n hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned • cryfhau'r gwaith o gefnogi arferion iaith pobl ifanc • darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu proffesiynol i weithwyr yn y maes cynllunio ieithyddol. <p>(*Mae'r gronfa benodol hon wedi dod i ben a'r</p>	<p>yn y mwyafrif o achosion. Byddwn yn gwerthuso'r cynlluniau hyn er mwyn crynhoi'r canlyniadau ieithyddol yn sgil y buddsoddiad ychwanegol.</p> <p>Parhau i fonitro gwaith ein partneriaid sy'n derbyn arian drwy'r Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (2016-19).</p> <p>Parhau i ariannu Mentrau Iaith Cymru i gefnogi datblygiad y rhwydwaith o Fentrau Iaith a chodi safonau o blith y Mentrau.</p> <p>Cynnal adolygiad o strwythurau y Mentrau Iaith er mwyn ymateb yn effeithiol i bolisi ac anghenion cymunedau ar draws Cymru.</p> <p>Cynorthwyo ysgolion uwchradd i wreiddio prosiect Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc</p>

		gwaith a ariannwyd yn 2014-16 wedi'i brif ffrydio i waith ein partneriaid grant yn y mwyafrif o achosion)	
15.	3. Y gymuned 4. Y gweithle 5. Gwasanaethau Cymraeg	Pwyso a mesur rôl bosibl y Mentrau Iaith o safbwynt cyfeirio ymholiadau at Busnes Cymru	Rhoi arweiniad er mwyn sicrhau fod gweithgaredd y Mentrau Iaith i hybu'r Gymraeg mewn busnes wedi ei gydlyn yn genedlaethol, mewn cydweithrediad a darparwyr gwasanaeth perthnasol.
16.	3. Y gymuned	Hwyluso cytundeb cydweithio rhwng y cyrff sy'n hybu a hwyluso'r Gymraeg.	Cefnogi'r Ffermwyr Ifanc i baratoi cytundeb cydweithio gyda Mentrau Iaith Cymru. Cynnal o leiaf dri chyfarfod cenedlaethol rhwng y partneriaid sy'n derbyn Grant i Hybu a Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. (2016-19) a sefydliadau eraill sydd a'r nod o weld y Gymraeg yn ffynnu er mwyn rhannu gwybodaeth, ystyried cyfleoedd i gydweithio ynghyd â thrafod datblygiad gwaith y partneriaid tuag at wireddu'r canlyniadau ein Strategaeth.
17.	1. Y teulu	Datblygu rhaglen genedlaethol a fydd yn cefnogi teuluoedd i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.	Gweithredu cynllun Cymraeg i Blant i gefnogi rhieni newydd i gyflwyno'r Gymraeg o fewn y teulu. Fel rhan o Gynllun Grant i Hybu a Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. (2016-19). bydd nifer o fudiadau yn trefnu gweithgareddau gyda'r nod o gyfrannu at ganlyniad cyntaf y Strategaeth iaith <i>iaith fyw:iaith byw</i> sef "cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel y brif iaith gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn o'r teulu sydd mewn cyswllt agos a

			nhw”.
18.	2. Plant a phobl ifanc	Defnyddio cyfryngau amrywiol a chyfoes i hybu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, gan gael ein harwain gan y bobl ifanc eu hunain.	<p>Adeiladu ar yr ymgyrchoedd marchnata a gynhaliwyd eisoes i hyrwyddo sgiliau Cymraeg ymhlith pobl ifanc fel rhan o ymgyrch ehangach i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.</p> <p>Datblygu ymgyrchoedd marchnata/hyrwyddo yn targedu pobl ifanc yn benodol drwy gyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Cyflwyno'r siarter iaith Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru.</p> <p>Cynorthwyo ysgolion uwchradd i wreiddio prosiect Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc.</p> <p>Fel rhan o gynllun grant hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (2016-19) bydd nifer o fudiadau yn trefnu gweithgareddau gyda'r nod o gyfrannu at ail ganlyniad y Strategaeth Iaith <i>laith fyw:iaith byw</i> sef “plant a phobl ifanc yn defnyddio mwy o'r Gymraeg.”</p>
19.	3. Y gymuned	Gweithredu argymhellion yr adolygiad o'r rhaglen Cymraeg i Oedolion yn unol â'r cyfeiriad a nodwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad.	Parhau i weithredu argymhellion y grŵp adolygu Cymraeg i Oedolion i wella a chynyddu darpariaeth mewn partneriaeth gyda'r ganolfan genedlaethol newydd a'r darparwyr.
20.	2. Plant a phobl ifanc	Dechrau'r broses o newid y drefn o ddysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng	Datblygu ein polisi tymor hir ar gyfer dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

		Saesneg.	
--	--	----------	--

Newid ymddygiad ieithyddol

Mae'r pwyntiau gweithredu yn yr adran hon yn ymwneud â'r her o newid ymddygiad ieithyddol gan wneud y mwyaf o'r brand newydd yr ydym wedi lansio er mwyn datblygu negeseuon cyson ar draws ein mentrau polisi o ran y Gymraeg. Maent hefyd yn ymwneud â'n nod o ddysgu o dechnegau marchnata cymdeithasol mewn meysydd eraill er mwyn archwilio a oes modd eu defnyddio neu eu haddasu ar gyfer y maes cynllunio ieithyddol.

	Maes strategol <i>laith fyw: iaith byw</i>	Ymrwymiad <i>Bwrw mlaen (2014)</i>	Yn ystod 2016-17 byddwn yn ymgymryd â'r canlynol.
21.	Pob maes strategol	Datblygu cyfres o ymgyrchoedd gyda'r nod o newid ymddygiad ieithyddol a fydd yn defnyddio arbenigedd marchnata cymdeithasol, gan ddechrau gydag ymgyrch 'Y Pethau Bychain'.	Parhau i ddatblygu ymgyrchoedd wedi eu targedu at gynulleidfaoedd penodol dan ymgyrch ehangach 'Pethau Bychain', gan ganolbwyntio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
22.	Pob maes strategol	Lansio gwefan a fydd yn hyrwyddo a hysbysebu cyfleoedd i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd ar draws Cymru.	Parhau i ddatblygu, hyrwyddo a gwella gwefan 'Cymraeg' fel porthol ganolog i unigolion sy'n chwilio am gyfleoedd i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.
23.	1. Y teulu 2. Plant a phobl ifanc 3. Y gymuned	Law yn llaw â'r wefan creu, hwyluso a rheoli system i gynnal perthynas â chwsmeriaid, drwy gydweithio â'n partneriaid, a fydd yn galluogi unigolion i gofrestru i dderbyn gwybodaeth wedi'i theilwra ar eu cyfer am ddigwyddiadau a gwasanaethau Cymraeg, a galluogi darparwyr a busnesau i dargedu negeseuon allweddol at unigolion ar fanteision a chyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg.	Cynnal gwaith datblygu pellach ar y system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid i alluogi unigolion i dderbyn gwybodaeth wedi ei theilwra ar eu cyfer.

24.	4. Y gweithle 6. Y seilwaith	Hyrwyddo'r defnydd o .cymru ymhlith busnesau.	Parhau i hyrwyddo'r defnydd o .cymru trwy amlygu'r manteision mewn digwyddiadau Busnes Cymru.
25.	Pob maes strategol	Defnyddio technegau marchnata cymdeithasol mewn ymyriadau ieithyddol sy'n bodoli eisoes ac a ddatblygir yn y dyfodol.	Parhau i gynyddu ein defnydd o dechnegau marchnata cymdeithasol ac annog ein partneriaid i wneud hynny hefyd.
26.	1. Y teulu 2. Plant a phobl ifanc 3. Y gymuned	Sicrhau bod pawb sy'n derbyn ein grantiau, sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso'r defnydd ohoni, hefyd yn cymhwyso'r technegau hyn lle bo'n briodol ac yn datblygu negeseuon cyson wrth ymgysylltu â'r cyhoedd.	Parhau i ddatblygu ymgyrchoedd sy'n arfogi ein partneriaid grant a phartneriaid newydd i hyrwyddo'r Gymraeg mewn meysydd penodol
27.	1. Y teulu 2. Plant a phobl ifanc 3. Y gymuned	Cynnal gwaith ymchwil pellach er mwyn cael gwybod pryd ym mywyd person y mae'r technegau hyn yn briodol a rhoi canllawiau i sefydliadau er mwyn iddynt newid eu harferion o ran y Gymraeg.	Cynnal ymchwil ar y defnydd a wneir o wasanaethau hunan wasanaeth Cymraeg?

Dangosyddion

Dyma'r dangosyddion a gyhoeddwyd yn ein strategaeth iaith ar gyfer y Gymraeg, *iaith fyw: iaith byw*.

Dangosyddion cyffredinol

- Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg gartref.
- Canran y bobl sy'n gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

Dangosyddion ar gyfer pob maes strategol

Maes strategol 1: Y teulu

Dangosydd

- Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref

Maes strategol 2: Plant a phobl ifanc

Dangosydd

- Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru.

Maes strategol 3: Y gymuned

Dangosydd

- Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru.

Maes strategol 4: Y gweithle

Dangosyddion

- Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n ceisio hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Canran staff Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Maes strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg

Dangosyddion

- Y defnydd o wahanol wasanaethau a ddarperir yn Gymraeg.
- Nifer y cynlluniau neu bolisiau iaith Gymraeg.
- Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg.

Maes strategol 6: Y seilwaith

Dangosyddion

- Nifer y llyfrau Cymraeg, e-lyfrau a chylchgronau (heb gynnwys rhai addysg) a werthir.
- Y nifer sy'n darllen *Golwg 360*.
- Ffigyrau dosbarthu ar gyfer y papurau bro.
- Ffigyrau gwyllo a gwrando ar gyfer S4C a Radio Cymru.

- Pa mor gyffredin yw gwefannau poblogaidd sydd wedi datblygu rhyngwynebau Cymraeg.
- Pa mor gyffredin yw banciau, cwmnïau ffonau symudol ac eraill sy'n darparu rhyngwynebau Cymraeg.